Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn y Senedd: Adroddiad Blynyddol 2020-21

Gorffennaf 2020




www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn y Senedd:
## Adroddiad Blynyddol 2020-21

Gorffennaf 2020



# Cynnwys

**Cyflwyniad ........ 7**

Rôl ac aelodaeth y Pwyllgor ........ 7

Crynodeb o'r gweithgaredd a'r materion a drafodwyd ........ 9

**Casgliadau a sylwadau ........ 13**

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20 ac archwiliad allanol ........ 13

Archwilio mewnol ........ 14

Rheoli risg ........ 16

Fframwaith sicrwydd ........ 18

Trosolwg o weithgaredd y Pwyllgor drwy gydol y Bumed Senedd ........ 19

**Edrych tua'r dyfodol ........ 22**

**Casgliadau ........ 23**

**Atodiad 1: Cylch Gwaith Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd ........ 24**



# Cyflwyniad

**1.** Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd[1] (y Pwyllgor) yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn ar ei waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

**2.** Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar waith y Pwyllgor mewn cysylltiad â fframweithiau'r Comisiwn ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol, llywodraethu a sicrwydd. Mae'n amlinellu cylch gwaith y Pwyllgor, y gwaith a gyflawnwyd a'r canfyddiadau a'r sylwadau cysylltiedig, yr hyn y mae'r Pwyllgor yn bwriadu canolbwyntio arno yn 2021-22, a'i gasgliadau cyffredinol.

**3.** Gan mai hwn yw'r pumed adroddiad a'r adroddiad terfynol ar gyfer tymor y Bumed Senedd, mae'n cynnwys trosolwg o'r sylw dros y cyfnod a sut mae'r Pwyllgor wedi esblygu.

**4.** Mae 2020-21 wedi bod yn flwyddyn eithriadol oherwydd pandemig Covid-19. Mae ymateb y Comisiwn i'r pandemig hefyd wedi bod yn eithriadol, fel sydd i'w weld yn ei lwyddiant yn galluogi ac yn cefnogi busnes y Senedd mewn ffyrdd ystwyth, ymatebol ac arloesol. Mae mwy o fanylion am effaith y pandemig i'w gweld yn yr adroddiad hwn. Rydym yn falch o ddweud na fu unrhyw darfu ar drafodion ffurfiol y Pwyllgor hwn yn ystod y flwyddyn, gyda'r holl gyfarfodydd a gynlluniwyd yn mynd rhagddynt fel y cynlluniwyd mewn fformat rhithwir.

## Rôl ac aelodaeth y Pwyllgor

**5.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau yn ymwneud â rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol. Mae'n gweithredu mewn rhinwedd gynghorol, ac nid oes ganddo bwerau gweithredol. Mae'n rhoi cyngor ynghylch pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw sicrwydd, ynghyd â'i uniondeb, gan gynnwys ffynonellau archwilio mewnol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys adolygu polisïau cyfrifyddu ac archwilio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn, gan gynnwys y datganiad llywodraethu. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor (**atodiad 1**) a'r **flaenraglen waith** wedi'u llunio'n unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

[1] Newidiodd enw llawn y Pwyllgor i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd ym mis Mai 2020 i adlewyrchu newid enw'r sefydliad.

6. Fel rhan o'i rôl yn adolygu gweithgarwch archwilio, mae'r Pwyllgor hefyd yn asesu annibyniaeth archwilwyr allanol. Mae'r Pwyllgor yn cael sicrwydd ar hyn gan Archwilio Cymru drwy'r Strategaeth Archwilio Flynyddol sy'n cynnwys adran ar annibyniaeth. Esbonnir hyn ymhellach gan gynrychiolwyr Archwilio Cymru yng nghyfarfod perthnasol y Pwyllgor. Hefyd, mae sesiwn breifat flynyddol gydag Archwilio Cymru wedi'i chynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor, lle gellir cynnal trafodaethau pellach am y broses archwilio allanol. Mae hyn yn ogystal â thrafodaethau am y broses yn ystod y cyfarfodydd ffurfiol. At hynny, mae cyfleoedd i gynrychiolwyr o Archwilio Cymru a Chyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn roi adborth i'r Pwyllgor ar y sesiwn gwersi a ddysgwyd a gynhelir rhwng y tîm Cyllid a'r tîm archwilio allanol.

7. Mae **aelodaeth gyfredol** y Pwyllgor (Comisiynydd a thri Chynghorydd Annibynnol, gydag un ohonynt yn Gadeirydd) wedi'i hamlinellu isod ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Comisiwn.

- Robert Evans, Cadeirydd a Chynghorydd Annibynnol
- Suzy Davies AS, Comisiynydd (cyfarfod diwethaf, mis Mehefin 2021)
- Ann Beynon OBE, Cynghorydd Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor
- Dr Aled Eirug, Cynghorydd Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor

8. Roedd y canlynol hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

- Manon Antoniazzi – Prif Weithredwr a Chlerc (Swyddog Cyfrifyddu y Comisiwn);
- Nia Morgan – Cyfarwyddwr Cyllid;
- Dave Tosh – Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd;
- Siwan Davies – Cyfarwyddwr Busnes y Senedd;
- Arwyn Jones – Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu;
- Gareth Watts – Pennaeth Archwilio Mewnol/Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd;
- Ann-Marie Harkin – Arweinydd Ymgysylltu, Archwilio Cymru;
- Gareth Lucey – Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru;
- Steve Wyndham – Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru;
- Kathryn Hughes – Rheolwr Risg a Llywodraethu; Clerc y Pwyllgor;

- Buddug Saer – Dirprwy Glerc y Pwyllgor; a
- Ryan Bishop – Dirprwy Glerc y Pwyllgor.

Daeth swyddogion eraill y Comisiwn i gyfarfodydd yn ôl yr angen hefyd.

**9.** Mae cael Comisiynydd fel aelod o'r Pwyllgor yn rhoi mewnwelediadau gwleidyddol gwerthfawr i'r materion y mae'n eu trafod, yn enwedig o ran gwaith craffu ariannol a chyllidebol y Comisiwn a'i broffil risg. Mae wedi rhoi linc i'r Comisiwn gyda diweddariadau ar ôl pob cyfarfod o'r Pwyllgor, yn ogystal â rhannu'r cofnodion. Mae hefyd wedi bod yn hynod ddefnyddiol clywed adborth uniongyrchol o safbwynt Comisiynydd yn sesiynau craffu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Cyllid y Senedd.

**10.** Mae'r Pwyllgor yn cyhoeddi cofnodion ei gyfarfodydd ar **wefan** y Comisiwn. Mae Cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn mynd i gyfarfod y Comisiwn i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor cyn diwedd tymor yr haf.

## Crynodeb o'r gweithgaredd a'r materion a drafodwyd

**11.** Ar 23 Mawrth 2020, cyhoeddwyd bod y DU gyfan yn mynd i mewn i gyfnod clo mewn ymateb i bandemig Covid-19, ac o ganlyniad, cynhaliodd y Pwyllgor bob un o'i bum cyfarfod yn ystod 2020-21 yn rhithwir. Roedd hyn yn golygu na chafwyd fawr o effaith ar flaenraglen waith y Pwyllgor o ran yr eitemau safonol ar yr agenda, ac eitemau eraill yn parhau i adlewyrchu'r adrannau cyfrifoldebau a gofynion gwybodaeth a amlinellir yn Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor (**atodiad 1**). Pan wnaeth y Pwyllgor benderfyniadau na fyddai eitemau'n cael sylw yn y cyfarfodydd ffurfiol, cafodd papurau eu cylchredeg y tu allan i'r pwyllgor mewn modd amserol, ac anfonodd yr aelodau gwestiynau'n uniongyrchol at swyddogion. Lle roedd angen, cafwyd cyfle yn dilyn hyn i drafod unrhyw bwyntiau a oedd yn codi yn y cyfarfodydd ffurfiol.

**12.** Drwy gydol y pandemig, arsylwodd y Pwyllgor sut mae'r Comisiwn wedi parhau i ddangos safonau llywodraethu uchel er gwaethaf yr amgylchiadau heriol. Yn anochel, roedd effaith ar beth gweithgaredd archwilio mewnol traddodiadol, fel yr amlinellir yn adran canfyddiadau a sylwadau yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, cafodd y Pwyllgor ei hysbysu'n drylwyr am y gwaith i addasu cynlluniau ac mae wedi cymeradwyo'r dull o flaenoriaethu adnoddau archwilio i roi sicrwydd amser real ar gyfer meysydd arwyddocaol mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

**13.** Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau manwl ynghylch ymateb y Comisiwn i Covid-19 drwy gydol y cyfnod, ac roedd yn weithgar o ran monitro ac adolygu'r trefniadau amgen a oedd yn cael eu rhoi ar waith, yn ogystal â'r effaith ar adnoddau dynol a llesiant staff. Cadwodd y Pwyllgor oruchwyliaeth agos ar y trefniadau llywodraethu ychwanegol sydd wedi bod ar waith, ac sy'n parhau i fod ar waith o ran cofnodi penderfyniadau, gwersi a ddysgwyd a chynlluniau ar gyfer dychwelyd i'r ystâd. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Natganiad Llywodraethu'r Comisiwn, a gyhoeddwyd fel rhan o'i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21[2].

**14.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod, er gwaethaf yr amgylchiadau heriol yn sgil y pandemig, fod y Comisiwn wedi cyflawni rhai darnau pwysig o waith yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, y mae manylion pellach amdanynt i'w cael yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn[3]:

- cefnogi Aelodau a Phwyllgorau'r Senedd yn y gwaith o graffu ar lawer o ddeddfwriaeth gymhleth, gan gynnwys ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE a Covid-19;
- gweithredu agweddau ar newid sy'n ymwneud â diwygio'r Senedd, gan gynnwys newid enw'r sefydliad a gostwng yr oedran pleidleisio i 16;
- cynllunio ar gyfer trosglwyddo i'r Chweched Senedd, gan helpu i gyflwyno deddfwriaeth frys i ganiatáu ar gyfer newid posibl i ddyddiad etholiadau'r Senedd a gwaith cynllunio senarios dilynol i baratoi ar gyfer hyn;
- newidiadau radical i weithgaredd ymgysylltu oherwydd y pandemig; a
- lansio gwefan newydd ar ôl ymgynghori'n helaeth.

**15.** Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd drwy gyfarfodydd ffurfiol a thu allan i'r pwyllgor ar hyn a meysydd gwaith allweddol eraill, a rhoddodd her adeiladol, yn enwedig ar y risgiau cysylltiedig.

**16.** Yn ei adolygiad o Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol y Comisiwn, a gyhoeddir fel rhan o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn[4], nododd y Pwyllgor, er gwaethaf effaith anochel y

---

1. https://senedd.cymru/comisiwn/adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon-y-comisiwn/
2. https://senedd.cymru/comisiwn/adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon-y-comisiwn/
3. https://senedd.cymru/comisiwn/adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon-y-comisiwn/

pandemig ar rai dangosyddion, fod y Comisiwn yn parhau i gyflawni safonau uchel o wasanaeth a pherfformiad o ran cyflawni busnes y Senedd.

**17.** Manylion rôl y Pwyllgor o ran adolygu a chynghori ar: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ac archwilio allanol, gan gynnwys y datganiad llywodraethu; archwilio mewnol; rheoli risg; a'r fframwaith sicrwydd sydd i'w gweld yn adran canfyddiadau ac sylwadau'r adroddiad hwn. Mae'n werth tynnu sylw at y canlynol yn y crynodeb:

- nid oedd unrhyw faterion nac argymhellion arwyddocaol yn codi'r o'r archwiliad allanol o gyfrifon y Comisiwn;
- addaswyd y cynllun archwilio mewnol i ganolbwyntio ar roi sicrwydd amser real ar faterion yn ymwneud â Covid; ac
- fe wnaeth y Pwyllgor barhau i fonitro risgiau corfforaethol a symudiadau ym mhroffil risg y Comisiwn, yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg.

**18.** Fe wnaeth yr adran 'edrych ymlaen' yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2019-20 dynnu sylw at sawl maes y byddai'r Pwyllgor yn parhau i gymryd diddordeb gweithredol ynddynt. Caiff manylion trafodaethau'r Pwyllgor am rai o'r meysydd hyn eu hamlinellu isod, ac mae eraill i'w gweld mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn:

- gwerthusiad o'r gwersi a ddysgwyd o ymateb y Comisiwn i'r Coronafeirws (Covid-19)

  Mae adolygiadau o ymateb y Comisiwn i sefyllfa barhaus y Coronafeirws (Covid-19) wedi'u cynnal ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor, a bydd hyn yn parhau wrth i staff y Comisiwn, yr Aelodau a'u staff, defnyddwyr eraill yr adeilad ac ymwelwyr ddechrau dychwelyd i'r ystâd. Bydd hefyd yn parhau i fonitro dogfennaeth y gwersi a ddysgwyd a sut y caiff y rhain eu cymhwyso.

- rheoli risgiau seiberddiogelwch, gan gynnwys profi cynlluniau ymateb

  Yn ogystal â chael diweddariadau fel rhan o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mhob cyfarfod, cynhaliodd y Pwyllgor archwiliad manwl i fygythiadau seiber-ymosodiadau yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2021, gan gyfuno hyn â'i ddiweddariadau rheolaidd a geir ddwywaith y flwyddyn. Hefyd, cafwyd eitem ar yr agenda yng nghyfarfod mis Tachwedd 2020. Mae mwy o

fanylion am hyn i'w gweld yn adran rheoli risg yr adroddiad hwn. Hefyd, adolygodd y Pwyllgor adroddiad archwilio mewnol a luniwyd ym mis Mawrth 2021.

- paratoadau ar gyfer etholiadau Senedd 2021;

  Aeth Pennaeth y Comisiwn a Chymorth i'r Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin 2020, a chyflwynodd bapur manwl i lywio'r drafodaeth ynghylch y gwaith cynllunio ar gyfer etholiadau'r Senedd a throsglwyddo i'r Chweched Senedd. Rhoddodd ddiweddariad yng nghyfarfod Chwefror 2021 yn dilyn hyn. Hefyd, rhoddwyd diweddariadau ym mhob cyfarfod fel rhan o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Dosbarthwyd canllawiau'r Etholiad a'r Diddymiad hefyd i aelodau'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2021.

- datblygu cynlluniau ar gyfer ymgysylltiad a chyfathrebu allanol gwell, gan gynnwys proffil uwch a phresenoldeb mwy atebol ar y cyfryngau cymdeithasol

  Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y gwaith o ddatblygu strategaeth newydd y cytunwyd arni ym mis Ionawr 2020 i wella sut mae'r Senedd yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phobl Cymru, a chroesawodd y pwyslais cryfach ar gynnwys digidol a'r cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, cafodd ddiweddariadau ynghylch sut y cafodd gweithrediad y strategaeth ei addasu yn sgil y pandemig, gan gynnwys newid cyflym i adnoddau addysgu a gweithgaredd ymgysylltu ar-lein mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd 2021 a phleidleisio yn 16 oed.

  Croesawodd y Pwyllgor wefan newydd y Comisiwn hefyd, gyda'i ffocws ar daith y defnyddiwr a gwell cyfleusterau llywio a chwilio. Mae gwefan ddeisebau newydd yn ei gwneud yn haws i ddeisebau gael eu creu a'u llofnodi.

**19.** Yn ogystal â busnes ffurfiol y Pwyllgor, fe wnaeth yr aelodau hefyd gefnogi'r Comisiwn ar y canlynol yn ystod y flwyddyn:

- mynd i gyfarfod tîm yr uwch reolwyr i graffu ar y datganiadau sicrwydd a ddarperir gan bob Cyfarwyddwr ar gyfer Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu, a herio'r datganiadau hyn (gweler yr adran fframwaith sicrwydd am fanylion pellach);
- recriwtio i swyddi uwch yn y Gyfarwyddiaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu; a
- recriwtio Cadeirydd ac aelodau i'r Bwrdd Taliadau annibynnol.

**20.** Mae'r Pwyllgor yn cael diweddariad llywodraethu a sicrwydd ym mhob un o'i gyfarfodydd. Mae hyn yn cynnwys sicrwydd a diweddariadau pwysig ynghylch ystod o faterion fel:

- gweithgaredd sicrwydd ynghylch yr ymateb i'r pandemig, gyda'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd yn arwain ffrwd waith sicrwydd ar raglen dychwelyd i'r ystâd;
- rhannu gwybodaeth am barhad busnes gyda grŵp rhyng-seneddol;
- cydymffurfio â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol;
- cymryd rhan mewn Fforwm Penaethiaid Archwilio Mewnol rhithwir ar gyfer sector cyhoeddus Cymru cyfan; a
- diweddariadau ar feysydd gwaith y mae'r tîm Llywodraethu a Sicrwydd yn ymdrin â nhw.

**21.** Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael diweddariadau rheolaidd am feysydd y mae Pwyllgor Cynghori y Comisiwn ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu yn eu trafod, ac mae manylion pellach am y rhain i'w cael ym mharagraff 66 o'r adroddiad hwn.

# Casgliadau a sylwadau

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20 ac archwiliad allanol

**22.** Fe wnaeth y Pwyllgor gefnogi'r gwaith o lunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, a gyhoeddwyd fis ynghynt nag mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd hyn yn cynnwys cynghori am y Datganiad Llywodraethu.

**23.** Croesawodd y Pwyllgor gyflwyniad cynnar yr Adroddiad Datganiadau Ariannol (ISA260) a'r Llythyr Rheoli. Roedd hwn yn archwiliad glân a syml gyda set o gyfrifon o ansawdd uchel. Ni chododd yr archwilwyr allanol unrhyw faterion nac argymhellion perthnasol, a rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad archwilydd diamod ar y datganiadau ariannol ym mis Gorffennaf 2020.

**24.** Oherwydd y pandemig, dyma oedd y flwyddyn gyntaf y cwblhawyd yr archwiliad o'r cyfrifon o bell. Gweithiodd y Comisiwn gydag Archwilio Cymru i gytuno ar ddatrysiadau, a fe wnaeth y defnydd o Sharepoint helpu i drosglwyddo pethau'n esmwyth. Gwnaethpwyd hyn i gyd wrth i'r ddau

sefydliad ymdopi â phwysau ychwanegol a achoswyd gan y pandemig. Mae hyn wedi arwain at ganmoliaeth gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am lunio set mor lân o gyfrifon, a hynny'n gynharach nag mewn blynyddoedd blaenorol ac yn ystod pandemig. Cafwyd canmoliaeth bellach gan y Pwyllgor Cyllid am fod mor dryloyw wrth adrodd gwybodaeth ariannol.

**25.** Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r berthynas waith gref rhwng yr archwilwyr allanol a mewnol drwy gyfrwng y 'protocol cydweithio'. Mae'r protocol, sy'n cael ei adolygu a'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn flynyddol, yn galluogi'r archwilwyr allanol i ddibynnu ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol.

**26.** Mae'r Pwyllgor yn falch bod yr archwilwyr, ar sail trefniadau llwyddiannus y blynyddoedd blaenorol, wedi gallu gwneud gwaith archwilio dros dro yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2020, cyn yr archwiliad llawn ym mis Mai.

**27.** Bydd y Pwyllgor yn parhau i gydweithio'n agos â'r archwilwyr allanol er mwyn sicrhau bod y prif systemau a rheolaethau ariannol a'r gweithdrefnau sy'n ategu'r broses o baratoi'r cyfrifon yn parhau i fod yn gadarn. Mae cadw ffi Archwilio Cymru ar yr un lefel am y bumed flwyddyn yn olynol yn adlewyrchu pa mor gymwys yw'r Comisiwn o ran rheoli'r broses gyfrifyddu a gwelliant parhaus mewn arferion gwaith.

**28.** Fe wnaeth y Pwyllgor groesawu cael gweld fersiwn ddrafft o Ddatganiad Llywodraethu 2019-2020 yn gynnar ym mis Ebrill 2020 ac roedd o'r farn bod hwn yn ddatganiad trylwyr ac yn adlewyrchiad gwir a gonest o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Comisiwn dros y flwyddyn a fu'n eithriadol. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar feysydd a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu y flwyddyn flaenorol drwy gydol y flwyddyn drwy adrodd ar risgiau corfforaethol, rheolaeth ariannol ac adroddiadau archwilio mewnol y Comisiwn.

**29.** Hefyd, croesawodd y Pwyllgor y ffaith y cafodd weld drafft cynnar o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, gan gynnwys Datganiad Llywodraethu drafft 2020-21, yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2021.

## Archwilio mewnol

**30.** Caiff gwasanaeth Archwilio Mewnol y Comisiwn ei reoli gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, sy'n gyfrifol am ganlyniadau'r holl archwiliadau mewnol. Mae'r Pwyllgor yn falch bod archwilio mewnol wedi cynnal safon gyson uchel ar draws y Comisiwn cyfan, gan gyfuno sylw effeithiol â hyblygrwydd wrth ymateb i faterion annisgwyl ac wedi'u cefnogi gan y gwaith amserol ac adeiladol o weithredu'r argymhellion. Caiff y rôl ei chefnogi gan un archwilydd

mewnol cymwys arall, yn rhan amser, a chaiff cymorth allanol ei ddarparu ar hyn o bryd gan TIAA, sy'n helpu i sicrhau annibyniaeth y gwaith archwilio.

**31.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod faint mae'r Coronafeirws (Covid-19) wedi tarfu ar waith archwilio eleni, a chyfraniad parhaus y Pennaeth Archwilio Mewnol o ran arwain ymateb y Comisiwn. Addaswyd gweithgarwch archwilio mewnol i ganolbwyntio ar roi sicrwydd amser real ar faterion yn ymwneud â Covid. Fe wnaeth y Pwyllgor adolygu'r nifer gyfyngedig o adroddiadau archwilio ffurfiol a luniwyd drwy gydol y flwyddyn, fel y'u rhestrir isod. Hefyd cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau am gynnydd o ran y ffordd yr oedd rheolwyr yn gweithredu'r argymhellion archwilio.

- Adroddiad Archwilio Mewnol y Prosiect Llywodraethu (archwiliad ffurfiol – sicrwydd cymedrol)
- Rheoli risgiau a materion yn ystod y pandemig (archwiliad ffurfiol - sicrwydd sylweddol)
- Seiberddiogelwch (archwiliad ffurfiol – sicrwydd cymedrol)
- Rheoli asedau TGCh (archwiliad ffurfiol – sicrwydd sylweddol)

**32.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffocws parhaus ar reolwyr yn gweithredu argymhellion archwilio mewnol. Cafwyd sicrwydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol bod yr holl argymhellion o flynyddoedd blaenorol wedi'u cwblhau a bod argymhellion 2020-21 naill ai wedi'u cwblhau neu wrthi'n cael eu cwblhau.

**33.** Nododd y Pwyllgor hefyd y sicrwydd yn yr adroddiadau a ganlyn a gyflwynwyd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol:

- adolygiad o ymateb y Comisiwn i bandemig Covid-19 a gynhaliwyd dros haf 2020; a

- cydymffurfiaeth diogelu data ym mis Chwefror 2021.

**34.** Un maes na chafodd ei ddatblygu yn ôl y bwriad yw'r adolygiad o'r cymorth i Bwyllgorau'r Senedd. Fel y nodwyd yn Natganiad Llywodraethu'r Comisiwn, cytunwyd i ymgorffori hyn yn y gwaith cynllunio ar gyfer y Chweched Senedd fel bod modd dysgu gwersi o'r pandemig, y safbwyntiau a'r penderfyniadau a wnaed gan y Comisiwn newydd, y Pwyllgor Busnes a Chadeiryddion, ac argymhellion yr adolygiad capasiti ehangach.

**35.** Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Adroddiad Blynyddol ar Dwyll i'r Pwyllgor, a nododd na ddaeth unrhyw achosion o weithgaredd twyllodrus gwirioneddol neu a amheuir at sylw Archwilio Mewnol yn 2020-21. Hefyd, ni chafwyd unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban yn fewnol.

**36.** Mae Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2020-21 yn nodi y gall y Swyddog Cyfrifyddu gymryd sicrwydd cymedrol bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol wedi'u cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o waith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a bod yr argymhellion yn effeithiol.

**37.** Cadarnhaodd yr adroddiad hwnnw fod yna gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Siarter Archwilio Mewnol.

**38.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r sicrwydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol bod lefel yr adnoddau a ymrwymir i'r Cynllun Archwilio yn parhau i fod yn ddigonol, gan nodi hefyd y gwytnwch ychwanegol a geir o'r ffaith bod aelod o'i dîm bellach wedi cymhwyso'n llawn. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael sicrwydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ac yn parhau i fod yn fodlon bod annibyniaeth y rôl yn cael ei gwarchod heb unrhyw wrthdaro buddiannau wrth gynnal yr archwiliadau.

**39.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu ymrwymiad y Pennaeth Archwilio Mewnol i'w ddatblygiad proffesiynol parhaus ac i fod yn aelod o rwydweithiau proffesiynol, ac yn benodol, ei ymgysylltiad agos parhaus â deddfwrfeydd eraill y DU.

## Rheoli risg

### Prosesau adolygu ac adrodd

**40.** Fe wnaeth y Pwyllgor barhau i fonitro effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg, a chraffu ar y gwaith o nodi risgiau allweddol, pennu eu difrifoldeb a'u lliniaru. Mae'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad y Comisiwn o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag ymarferion rheolaidd i edrych tua'r gorwel ac ansawdd cyson uchel y broses adrodd risg.

**41.** Mae'r sicrwydd sylweddol yr adroddwyd arno mewn adolygiad archwilio mewnol o reoli risg a materion yn ystod y pandemig yn rhoi tystiolaeth bellach o effeithiolrwydd y trefniadau yn y Comisiwn.

**42.** Mae ragor o fanylion am y trefniadau ar gyfer risgiau a'r gwaith o'u rheoli i'w gweld yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn.

## Proffil risg

**43.** Yn ogystal ag adolygu Cofrestr Risg Gorfforaethol Gryno y Comisiwn ym mhob cyfarfod, cynhaliodd y Pwyllgor adolygiadau manwl o risgiau corfforaethol unigol, neu faterion yn codi yr oedd yr uwch swyddogion perthnasol yn bresennol ar eu cyfer:

- Coronafeirws (Covid-19) – ymateb y Comisiwn (Ebrill 2020)
- Coronafeirws (Covid-19) - dod allan o'r cyfnod clo (Mehefin 2020)
- Newid cyfansoddiadol y DU a chyfnod pontio yr UE (Tachwedd 2020); a
- Seiberddiogelwch (Chwefror 2021) – mae manylion pellach i'w gweld ym mharagraffau 48-52 isod.

**44.** Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2021, fe wnaeth y Pwyllgor hefyd drafod diweddariadau manwl ar gyfer yr eitemau a ganlyn ar yr agenda yn ymwneud â risgiau corfforaethol:

- Symud tuag at etholiadau'r Senedd 2021 – gan gynnwys cynllunio ar gyfer newid posibl i ddyddiad etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021.
- Cydymffurfio â diogelu data – roedd yn rhoi dadansoddiad o'r bylchau hyd nes y byddai archwiliad ffurfiol yn cael ei gynnwys yng nghynllun archwilio 2021-22.

**45.** O ganlyniad i waith craffu manwl ar y risgiau hyn, roedd yr uwch swyddogion a oedd yn bresennol yn gallu rhoi sicrwydd pellach i'r Pwyllgor eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol.

**46.** Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gymryd diddordeb brwd mewn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data ac wedi croesawu'r diweddariadau yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac yn y papur ar gydymffurfio a gyflwynwyd yng nghyfarfod mis Chwefror 2021. Mae'r Adroddiad Blynyddol gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn rhoi sicrwydd ymhellach bod risgiau gwybodaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol. Yn ystod 2020-21, ni chafwyd yr un achos o golli data personol yr oedd yn rhaid adrodd amdano i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**47.** Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd gan bum risg gorfforaethol sgôr difrifoldeb 'coch'. Mae'r Pwyllgor o'r farn, ochr yn ochr â seiberddiogelwch, mai un o'r risgiau mwyaf sylweddol o hyd fydd effaith newid gwleidyddol, deddfwriaethol a chyfansoddiadol, a'r ymatebion i hyn, ochr yn ochr â chyflawni blaenoriaethau strategol uchelgeisiol y Comisiwn o fewn cyfyngiadau ariannol.

### Seiberddiogelwch

**48.** Nododd y Pwyllgor y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud i liniaru risgiau seiberddiogelwch yn barhaus, ac mae'n croesawu'r sicrwydd y mae'n ei gael drwy gyflwyno adroddiadau risg ac archwilio mewnol a'r sesiynau briffio rheolaidd gan uwch swyddogion TGCh.

**49.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bu heriau penodol i TGCh yn ystod y pandemig, gydag amgylchedd allanol cynyddol elyniaethus o ran bygythiadau seiberddiogelwch. Mae buddsoddiad y Comisiwn mewn gwasanaethau cwmwl, a pharhau i ddatblygu mesurau amddiffynnol ar gyfer ei rwydwaith, uwchraddio meddalwedd a'i weithdrefnau wrth gefn wedi gwneud gweithrediadau'n llawer mwy gwydn yn ystod y pandemig.

**50.** Mae gwasanaeth TGCh y Comisiwn wedi cadarnhau na chafwyd unrhyw achosion seiberddiogelwch a arweiniodd at danseilio diogelwch data yn 2020-21.

**51.** Fe wnaeth y Pwyllgor annog y Comisiwn i barhau i ganolbwyntio'n briodol ar seiberddiogelwch, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth gyda'r Aelodau newydd a rhai sy'n dychwelyd a'u staff cymorth yn eu swyddfeydd etholaethol.

**52.** Bydd seiberddiogelwch yn parhau'n rhan o'r cynllun archwilio mewnol blynyddol, ac ar gais y Pwyllgor, mae diweddariadau ar liniaru risgiau seiberddiogelwch yn parhau i gael eu cyflwyno bob chwe mis.

## Fframwaith sicrwydd

**53.** Mae fframwaith sicrwydd y Comisiwn yn mapio'r ffynonellau sicrwydd gweithredol, corfforaethol ac annibynnol o'u cymharu â'r prosesau, risgiau a systemau mewnol ar gyfer pob gwasanaeth. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar fodel 'tair llinell amddiffyn' Trysorlys EM ac yn dangos pa mor gryf yn gyffredinol yw ffynonellau sicrwydd y Comisiwn, yn ogystal â thynnu sylw at wendidau posibl. Caiff hyn ei adolygu fel mater o drefn i ddilysu trefniadau a'i

ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddrafftio datganiadau sicrwydd lefel gwasanaeth blynyddol.

**54.** Cafwyd haen arall o sicrwydd drwy bresenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor hwn ac un aelod arall yng nghyfarfod tîm yr uwch reolwyr i herio a chraffu ar y datganiadau sicrwydd a ddarperir gan bob Cyfarwyddwr i lywio Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu.

## Trosolwg o weithgaredd y Pwyllgor drwy gydol y Bumed Senedd

**55.** Ac eithrio Covid-19 a busnes fel arfer, mae'r Bumed Senedd wedi gweld llawer o newid i'r Comisiwn, gan gynnwys Llywydd newydd, Prif Weithredwr newydd a dau Gyfarwyddwr newydd. Bu rhai cyflawniadau sylweddol hefyd y mae'r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb brwd ynddynt ac wedi cael diweddariadau rheolaidd yn eu cylch. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Diwygio'r Senedd/newid cyfansoddiadol

  Mae staff y Comisiwn wedi mynd ati'n llwyddiannus i helpu i roi newidiadau ar waith a ddaeth yn sgil Deddf Cymru 2017, gan gynnwys pwerau codi treth newydd, newid enw'r sefydliad, a gostwng yr oedran pleidleisio i 16. Ochr yn ochr â hyn, mae cefnogi'r cyfnod pontio wrth i'r DU ymadael â'r UE wedi gofyn am lawer o adnoddau ac ymdrech traws-sefydliadol.

- Ymgysylltu

  Gan adeiladu ar sylfaen gref o weithgaredd i ymgysylltu â'r cyhoedd a'r cyfryngau, sefydlwyd Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Digidol i ymchwilio i opsiynau ar gyfer gwella. Roedd ei adroddiad, a gyhoeddwyd yn 2017, yn sail i strategaeth newydd a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2020 i wella gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu ymhellach. Aildrefnwyd adnoddau a recriwtiwyd arbenigwyr i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Hefyd, arweiniodd staff y Comisiwn ar sefydlu Senedd Ieuenctid Cymru am y tro cyntaf erioed yn 2018.

- Urddas a pharch

  Roedd mabwysiadu polisi newydd yn 2018 yn garreg filltir bwysig yn yr ymdrech i sicrhau gweithle cynhwysol sy'n rhydd rhag aflonyddu. Mae polisïau'r Comisiwn wedi'u diweddaru yn unol â hyn ac mae'r Cod

Ymddygiad newydd ar gyfer Aelodau'r Senedd bellach yn cynnwys egwyddor o barch.

**56.** Mae'r Pwyllgor wedi monitro'r diwygiadau hyn yn agos i sicrhau bod y mesurau priodol ar waith i gynnal trefniadau cadarn o ran llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg.

**57.** Yn ystod y Bumed Senedd (2016-21), newidiodd aelodaeth y Pwyllgor yn llwyr, ac eithrio Suzy Davies AS/Comisiynydd a ymunodd â'r Pwyllgor yn 2016. Ymunodd Bob Evans ac Ann Beynon â'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2018 a phenodwyd Bob yn gadeirydd ym mis Chwefror 2019; ymunodd Aled Eirug â'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2019. Rhoddodd y Cadeirydd a'r aelodau sydd ar ddiwedd eu cyfnod eu myfyrdodau manwl ar eu cyfnod fel aelod o'r Pwyllgor.

**58.** Mae'r aelodau newydd wedi dod ag amrywiaeth o wybodaeth a phrofiad sydd wedi arwain at her newydd mewn meysydd fel seiberddiogelwch, llywodraethu gwybodaeth a chaffael. Hefyd, bu newid o ran Prif Weithredwr a dau o'r tri Chyfarwyddwr.

**59.** Cynhaliwyd dau arolwg o effeithiolrwydd y Pwyllgor, gan roi cyfle i aelodau a swyddogion y Pwyllgor adrodd yn ddienw ar ystod o gategorïau ac awgrymu gwelliannau. Mae'r rhain wedi cynhyrchu sgoriau calonogol ar draws pob categori. Cafodd argymhellion ar gyfer mân welliannau eu rhoi ar waith yn gyflym.

**60.** Mae'r sesiynau preifat gydag archwilio mewnol, archwilio allanol a'r Swyddog Cyfrifyddu wedi hwyluso trafodaeth agored a gonest am unrhyw faterion neu bryderon ac wedi helpu i sicrhau bod y berthynas yn parhau i fod yn effeithiol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig gyda newid aelodaeth y Pwyllgor, a newid y Swyddog Cyfrifyddu a phersonél archwilio allanol.

**61.** Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn seiliedig ar ganllawiau Trysorlys EM: mae diweddariadau'n cynnwys meysydd fel rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ar faterion o bwysigrwydd strategol, gwaith ehangach yn y sector cyhoeddus a wneir gan archwilwyr ac adrodd ar feysydd sy'n cael eu trafod gan Bwyllgor y Comisiwn ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. Mae newidiadau eraill yn cynnwys cyflwyno diweddariadau rheolaidd i feysydd fel seiberddiogelwch, torri preifatrwydd gwybodaeth, ac yn fwyaf diweddar ymateb parhaus y Comisiwn i Covid-19.

**62.** Mae llif gwybodaeth gan swyddogion y Comisiwn bellach yn llawer gwell. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- cysylltiadau â thrafodion ffurfiol y Senedd fel sesiynau craffu ym Mhwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Cyllid y Senedd;
- manylion y canllawiau a roddwyd i Aelodau'r Senedd a staff y Comisiwn ynghylch yr etholiad a'r diddymiad;
- gwahoddiadau i gyfarfodydd yr holl staff i glywed y negeseuon i staff a chwestiynau a sylwadau gan staff;
- cylchredeg cylchlythyrau, adroddiadau a diweddariadau perthnasol a gyhoeddir gan gyrff fel Archwilio Cymru, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a CIPFA; a
- chofnodion Pwyllgor Cynghori y Comisiwn ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu.

**63.** Mae dadansoddiad o'r meysydd a gafodd eu trafod gan y Pwyllgor yn y Bumed Senedd wedi dangos cydbwysedd da o feysydd traddodiadol mewn perthynas ag archwilio, cyllid a risg a sicrwydd, gyda meysydd eraill yn cael sylw manwl mewn perthynas â phroffil risg y Comisiwn.

**64.** Un maes sydd wedi cael sylw arbennig dros y tymor yw seiberddiogelwch, o ystyried bod bygythiadau'n newid yn barhaus. Fel y mae'r adroddiad hwn yn ei amlinellu, mae'r Pwyllgor wedi croesawu'r gwaith adrodd a sicrwydd rheolaidd yn yr agwedd hanfodol hon ar lywodraethu a rheoli risg, ac mae'n annog ffocws parhaus ar liniaru'r bygythiadau.

**65.** Yn 2014, cyflwynodd y Comisiwn Fframwaith Sicrwydd newydd yn seiliedig ar fodel tair llinell amddiffyn Trysorlys EM. Mae'r Pwyllgor wedi croesawu gweld sut mae hyn wedi parhau i esblygu, ac mae wedi'i gymeradwyo ac annog pobl i'w ddefnyddio. Mae hyn wedi datblygu i fod yn broses gadarn ar gyfer casglu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ar bob lefel ar draws y Comisiwn. Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael manylion am feysydd y mae wedi'u trafod ar draws y tair llinell amddiffyn, sy'n atgyfnerthu'r farn bod sylw cytbwys a phriodol yn cael ei roi iddynt.

**66.** Mae cylch gorchwyl Pwyllgor y Comisiwn ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu yn cynnwys trafod materion sy'n gysylltiedig â dull strategol i ymgysylltu a datblygu'r gweithlu. Mae Ann Beynon hefyd yn aelod o'r Pwyllgor ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu, ac mae hi wedi rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar ei waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ym mis Hydref 2020, aeth Cynghorwyr Annibynnol y ddau Bwyllgor i gyfarfod â Bwrdd Gweithredol y

Comisiwn i ystyried drafft o Strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd a sut y gall y ddau gorff gydweithredu a rhannu gwybodaeth yn well. Caiff cofnodion cyfarfodydd y ddau Bwyllgor eu rhannu â'u haelodau, a chaiff Cofrestr Risg Gorfforaethol y Comisiwn ei rhannu ag aelodau'r Pwyllgor ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu er gwybodaeth ac i roi cyfle iddynt roi sylwadau. Mae Cadeiryddion y ddau Bwyllgor hefyd yn mynychu cyfarfod o'r Comisiwn i gyflwyno'u hadroddiadau blynyddol.

## Edrych tua'r dyfodol

**67.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod cryfder trefniadau llywodraethu, risg, rheolaeth a sicrwydd y Comisiwn, mae'n rhaid parhau i ddatblygu'r rhain er mwyn iddynt fod yn effeithiol o hyd. Yn ogystal â'i weithgaredd reolaidd, bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb brwd yn y meysydd a ganlyn yn ystod 2021-22:

- unrhyw gamau gweithredu, materion o bwys ac argymhellion allweddol sy'n deillio o'r archwiliad o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2020-21;
- gwerthuso'r gwersi a ddysgwyd o ymateb y Comisiwn i bandemig Covid-19 a llywodraethu ynghylch ffyrdd newydd o weithio;
- capasiti'r Comisiwn i gyflawni o fewn cyfyngiadau cyllidebol; a
- seiberddiogelwch.

**68.** Mae angen i'r Pwyllgor hefyd edrych ymlaen a rhagweld materion, heriau a risgiau a allai godi yn y dyfodol, a hynny ar ben y rhai a nodwyd yn y flaenraglen waith. Er mwyn helpu i lywio hyn, bydd swyddogion a'r tîm clercio yn parhau i gylchredeg diweddariadau perthnasol a bydd y Cadeirydd yn parhau i gwrdd bob pythefnos â'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd, a swyddogion eraill yn ôl yr angen.

**69.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn annog y Comisiwn i gael y diweddaraf am newid mewn meysydd fel datblygiadau TG, a seiberddiogelwch yn benodol, gan ddefnyddio'r arbenigedd mewnol y mae wedi'i recriwtio a'i ddatblygu a'r cysylltiadau â Microsoft a darparwyr gwasanaethau eraill.

**70.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn awyddus i fynd ar drywydd cyfleoedd i weithio gyda Bwrdd Gweithredol y Comisiwn a swyddogion eraill mewn meysydd lle gall ychwanegu gwerth. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith materion

eraill: caffael (yn benodol gan gyflenwyr lleol); sicrhau gwerth am arian o ystyried cyfyngiadau cyllidebol; risgiau a materion yn ymwneud â datblygu’r gweithlu a’i amrywiaeth; cynaliadwyedd amgylcheddol; a gwaith hirdymor i edrych tua’r gorwel, gan edrych ar ddatblygiadau allanol - bygythiadau a chyfleoedd.

# Casgliadau

**71.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Comisiwn ynghylch effeithiolrwydd cyffredinol yr amgylchedd risg, rheolaeth a llywodraethu. Yn wir, yn gyffredinol, mae lefelau sicrwydd yn y Comisiwn yn parhau i fod yn uchel. Mae'r ffynonellau sicrwydd yn gadarn ac yn ddibynadwy, fel y gwelwyd yn yr archwiliad allanol o gyfrifon, y Fframwaith Sicrwydd, a'r gwaith parhaus a'r Farn a'r Adroddiad Blynyddol gan Archwilio Mewnol.

**72.** Mae'r Pwyllgor yn diolch i’r Prif Weithredwr a’r Clerc, a'i staff, am eu hagwedd adeiladol a chydweithredol at waith y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf. Drwy gydol y cyfnod, mae'r Pwyllgor wedi parhau i gael cysylltiadau gwaith da iawn gyda staff y Comisiwn ac wedi eu cael i fod yn agored ac yn barod i gael eu herio. Mae'r cymorth ysgrifenyddiaeth a ddarperir yn parhau i fod o'r radd flaenaf ac mae aelodau'r Pwyllgor yn ei werthfawrogi'n fawr.

**73.** Hoffai'r Pwyllgor presennol gofnodi ein diolch i Suzy Davies AS a Chomisiynydd am ei chyfraniadau, ei mewnwelediad a'i her adeiladol amhrisiadwy i'r Pwyllgor dros y pum mlynedd blaenorol.

# Atodiad 1: Cylch Gwaith Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd

**Mae'r Comisiwn yn sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w gynorthwyo â'i gyfrifoldebau dros faterion risg, rheolaeth a llywodraethu. Ei rôl yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'r sicrwydd hwn yn bodloni anghenion y Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu.**

## Aelodaeth

1. Aelodau Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd yw:

   - **Suzy Davies**, AS, Comisiynydd;
   - Tri **chynghorydd annibynnol**: **Robert Evans** (Cadeirydd), **Ann Beynon**; ac Dr **Aled Eirug**.

## Cyflwyno adroddiadau

2. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn drwy'r Swyddog Cyfrifyddu ar ôl pob cyfarfod. Caiff cofnodion y cyfarfodydd eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

3. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn mynd i gyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf ac yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, a fydd wedi'i amseru i gynorthwyo â'r broses o orffen y cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn crynhoi casgliadau'r Pwyllgor ar y gwaith a wnaeth yn ystod y flwyddyn.

## Cyfrifoldebau

4. Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch:

   - y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu;
   - y Datganiad Llywodraethu;
   - polisïau cyfrifyddu, cyfrifon, ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses o adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, nifer y

camgymeriadau a nodwyd, a llythyr yn cynnwys sylwadau'r rheolwyr i'r Archwilydd Cyffredinol;

- y gwaith archwilio mewnol ac allanol sydd wedi'i drefnu, a'r canlyniadau;
- a yw ymateb y rheolwyr i'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio yn ddigonol, gan gynnwys y Llythyr Rheoli ar gyfer gwaith archwilio allanol gan Archwilio Cymru;
- sicrwydd i'r Comisiwn o ran rheoli risg a llywodraethu corfforaethol;
- cynigion i dendro ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol neu i brynu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

**5.** Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'r gilydd ac yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Comisiwn.

## Hawliau

**6.** Yn amodol ar y cyllidebau y mae'r Comisiwn yn cytuno arnynt, caiff y Pwyllgor:

- gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod o hyd at flwyddyn (â chymeradwyaeth y Swyddog Cyfrifyddu) i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol;
- caffael cyngor ad-hoc arbenigol y telir amdano gan y sefydliad.

## Mynediad

**7.** Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd Archwilio Cymru ryddid i siarad yn gyfrinachol â Chadeirydd y Pwyllgor unrhyw adeg.

## CYFARFODYDD

**8.** Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn. Caiff y Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

**9.** Rhaid i o leiaf ddau aelod o'r Pwyllgor fod yn bresennol i sicrhau cworwm.

**10.** Fel arfer, bydd y Swyddog Cyfrifyddu, y Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd, y Rheolwr Risg a Llywodraethu, y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd o Archwilio Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

**11.** Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddog arall fod yn bresennol i'w gynorthwyo â'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.

**12.** Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw rai, neu i bawb, sy'n mynd i'r cyfarfodydd fel arfer ond nad ydynt yn aelodau, adael y cyfarfod er mwyn gallu cynnal trafodaeth agored a gonest ar faterion penodol.

**13.** Caiff y Comisiwn neu'r Swyddog Cyfrifyddu ofyn i'r Pwyllgor drefnu cyfarfodydd ychwanegol i drafod materion penodol y mae am gael cyngor y Pwyllgor yn eu cylch.

## Gofynion gwybodaeth

**14.** Bydd y Pwyllgor yn cael yr wybodaeth a ganlyn ym mhob cyfarfod:

- adroddiad yn crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol yng Nghofrestr Risg Corfforaethol y Comisiwn;
- adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol yn crynhoi:
  - y gwaith a gwblhawyd (o'i gymharu â'r gwaith y bwriadwyd ei wneud);
  - y materion allweddol sy'n codi o'r gwaith Archwilio Mewnol;
  - ymateb rheolwyr i argymhellion adroddiadau archwilio;
  - newidiadau i'r cynllun archwilio blynyddol;
  - materion yn ymwneud ag adnoddau sy'n effeithio ar y gallu i roi'r cynllun Archwilio Mewnol ar waith;
- adroddiad gan gynrychiolydd Archwilio Cymru yn crynhoi'r gwaith a wnaed a'r casgliadau sy'n deillio ohono;
- adroddiadau sicrwydd y rheolwyr; ac
- adroddiadau ar reoli digwyddiadau/materion mawr, achosion a fu bron a digwydd a'r gwersi a ddysgwyd.

**15.** Pan fo hynny'n briodol, bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael:

- cynigion ar gyfer cylch gorchwyl archwiliadau mewnol / y siarter archwilio mewnol;
- y strategaeth archwilio mewnol;
- Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- adroddiadau sicrwydd ansawdd ar y swyddogaeth archwilio mewnol;
- Strategaeth Archwilio flynyddol Archwilio Cymru;
- adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- cyfrifon drafft y Comisiwn;
- y Datganiad Llywodraethu drafft:
- Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth;
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisïau cyfrifyddu;
- llythyr rheoli Archwilio Cymru;
- adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio;
- adroddiad ar gydweithredu rhwng archwilwyr mewnol ac allanol;
- Strategaeth Rheoli Risg y Comisiwn;
- adroddiadau ar achosion o dorri gwybodaeth a diweddariadau rheolaidd am seiberddiogelwch;
- manylion am reoli'r portffolio o raglenni / prosiectau newid allweddol;
- crynodeb o'r achosion o wyro oddi wrth y gweithdrefnau arferol; a
- gwybodaeth arall o berthnasedd neu ddiddordeb posibl, gan gynnwys:

  – papurau neu adroddiadau'r Comisiwn ar faterion o bwysigrwydd strategol;

  – diweddariadau ar feysydd sy'n cael eu trafod gan Bwyllgor Cynghori y Comisiwn ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu;

– adroddiadau cenedlaethol fel y'u cynhyrchir gan gyrff archwilio; a

– diweddariadau ddwywaith y flwyddyn gan Archwilio Cymru i rannu gwybodaeth am astudiaethau ac adroddiadau ehangach y sector cyhoeddus ac i grynhoi sut y gallai'r rhain effeithio ar y Comisiwn, neu fod o ddiddordeb iddo.